Chwaraeon

Datganiad Pêl-rwyd Ysgolion Cynradd

Mae'r Urdd wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac rydym yn anelu at ddarparu cyfleoedd diogel a phleserus i blant.

Caniateir chwaraeon un rhyw o dan y Ddeddf Cydraddoldeb lle tybir bod rhywedd yn effeithio ar y gweithgaredd. O ystyried hyn, ac wrth ystyried y rhesymau a restrir isod, mae'r panel chwaraeon wedi pleidleisio o blaid cynnig twrnamaint i ferched yn unig eleni;

- Mae bwlch sylweddol o ran rhywedd o safbwynt bechgyn a merched sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, a thrwy gynnig twrnamaint i ferched yn unig gyda llwybr clir ar gyfer cyfranogiad parhaus, rydym yn mynd ati i gymryd camau i gau'r bwlch rhwng y rhywiau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon.
- Byddai twrnamaint i ferched yn unig yn galluogi merched i gymryd rhan mewn cystadleuaeth frwd gystadleuol lle mae amgylchiadau fel cryfder corfforol, stamina neu gorfforledd *(physique)* yn fanteisiol.
- Cafwyd cwynion yn y gystadleuaeth Genedlaethol ynghylch y dryswch o ran lleoliad bachgen ar y cwrt, a bu'n rhaid i ddyfarnwyr rybuddio bechgyn am chwarae gor-gorfforol ar lefel Genedlaethol yn flaenorol.
- Gellir gosod bechgyn mewn mannau allweddol ar y cwrt lle mae eu presenoldeb corfforol ac athletaidd yn fantais, gan greu gweithgaredd sy'n cael ei effeithio gan rywedd.
- Gan fod y gystadleuaeth wedi bod yn agored i flwyddyn 5 a 6 yn flaenorol, gall y bwlch oedran ymestyn hyd at 3 blynedd. Yn ogystal â hynny, gydag ysgolion llai o faint yn gallu gwahodd chwaraewyr blwyddyn 4 oherwydd prinder chwaraewyr o'r ysgol, mae hyn wedi arwain at wahaniaeth oedran o 4 blynedd mewn rhai achosion.

Mae'r Urdd yn cynnig amrywiaeth o gystadlaethau ar gyfer cymysgedd o'r rhywiau, a chystadlaethau i ryweddau penodol sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Adran Addysg, gan sicrhau dewis teg o gystadlaethau cyfle cyfartal mewn gweithgareddau chwaraeon y gellir eu cymharu â'i gilydd.

Gallwn sicrhau y bydd y gystadleuaeth yn cael ei gwerthuso, a byddwn yn edrych eto ar fformat y gystadleuaeth cyn unrhyw benderfyniad ar gyfer 2021.

Chwaraeon

Primary School Netball Statement

The Urdd is committed to Equality of opportunity and we aspire to provide safe and enjoyable opportunities for children.

Single sex sports are permitted under the Equality Act where activity is deemed to be gender effected, given this and in considering the reasons listed below, the sports panel have voted in favour of offering an all- girls tournament this year;

- There is a significant gender gap in sports participation between boys and girls, through offering an all-girls tournament with a clear pathway for continued participation we are actively taking steps to close the gender gap in sports participation.
- An all-girls tournament would enable girls to participate in a competitive natured competition where circumstances such as physical strength, stamina or physique are an advantage.
- Complaints are received at the National competition regarding the confusion with the boy's placement on the court and umpires have previously had to warn boys for physical play at National level.
- Boys can be placed in key areas on the court where their physical and athletic presence is an advantage creating a gender affected activity.
- As the competition previously has been open to year 5 and 6, the age gap can be up-to 3 years. In addition, with small schools able to invite year 4 players due to limited players from the school this has resulted in a 4-year age difference in some instances.

The Urdd offer a range of mixed, and same sex competitions adhering to the Department of Education guidelines, ensuring a fair selection of equal opportunities competition to participate in comparable sporting activities.

We can ensure that the competition will be evaluated, where we will look again at the competition format before any decision for 2021.